



Astudiaeth Achos: Ffermio Cregyn Gleision yn Afon Menai ac yn ACA Bae Conwy

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy
i'r busnes proffesiynol



Dyframaeth ar gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad
cynaliadwy i'r sector
Dyframaeth

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddus o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dim PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gyddorau Amgylcheddol.)



Cefnogi'r Gronfa Manteisio ar Wybodaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa
Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3





Y Lolipop
Ffynhonnell: James Wilson

"Y broblem oedd bod yr adegau hau a medi'n gorymylu ar ei gilydd, ac 'roedd gwir angen ail fad arnon ni, a dyna sut daeth syniad y Lolipop i fodolaeth - bad cynaeafu pwrpasol, wedi'i addasu ar gyfer amgylchiadau Afon Menai." Esbonia Kim Mould, "Mi fuon ni'n siarad â'r adeiladwyr Maaskant yn yr Isalmaen am ein bwriad, a dyfeision ni gynllun gyda'n gilydd ar gyfer system dreillio awtomatig, wedi'i gosod ar starn bad trydanol, prin ei ddyfnder, hawdd ei drin. Mae'r system dreillio'n cael ei rheoli â llaw o'r caban llywio, 'does dim angen i neb fynd yn agos i'r treillwyr, sy'n gwella diogelwch yn aruthrol ac yn ei gwneud hi'n bosibl inni bysgota ni waeth am gyflwr y môr. Efo criw o ddim ond dau mae Lolipop yn medru cynaeafu, golchi a sachu 20 tunnell o gregyn gleision yr awr." Yn dilyn hyn mi addaswyd y cysyniad gan Maaskant ar gyfer cwch wystrys yn yr Iseldiroedd, a enillodd wobwr am Gwch Isalmaenaid y Flwyddyn yn 2006. Dysgu rhywbeth newydd i'r Isalmaenwyr am bysgota - glywsoch chi 'rloed ffasiwn beth?

Buddion Busnes

Trwy weithio gyda'i gilydd mae'r grŵp yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn cael manteision gwybodaeth arbenigol ei gilydd. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio ffyrnt unedig yn wyneb problemau ac mae'r gefnogaeth y maent yn ei rhoi i'r cwmnïau eraill sy'n ffermio cregyn gleision yng Ngogledd Cymru'n esiampl o'u hymrwymiad i ddyfodol y diwydiant. Gyda'i gilydd, trwy fabwysiadu technoleg newydd, y peirianwaith diweddaraf ac arferion busnes arloesol, maent wedi rhoi bywyd newydd yn niwydiant cregyn gleision y Gogledd, ac erbyn hyn maent yn cynhyrchu tua 75% o gynhaeaf blynyddol gwledydd Prydain.

Buddion i'r Amgylchedd

Er eu bod yn ymwybodol bod unrhyw weithgarwch ffermio'n siwr o achosi newid amgylcheddol ac ecolegol yn yr ardal y mae'n ei gwmpasu, mae magwyr cregyn gleision Afon Menai'n ymdrechu i gadw'r effeithiau negyddol i'r lefel leiaf bosibl. Ni ddefnyddir mesurau ymosodol yn erbyn ysglyfaethwyr, ac eithrio'r cewyll a ddefnyddir i leihau'r nifer o grancod gleision, a ystyrir yn ddull pysgota cymharol fwyn, isel ei effaith gan y cwmnïau. Yn ogystal mae'r broses ddal crancod yn sylfaen i fusnes bach arall sy'n cyflogi un person.

Yn ôl ymchwilyr yn Ysgol Gwyddorau'r Eigion ym Mangor⁵,
"gwelir prif effaith uniongyrchol defnyddio hadgregyn gleision yn y broses dreillio, sy'n rhyddhau gwaddodion i'r golofn ddŵr. Ond mae'r mwd cregyn gleision sy'n cronni yn yr had-welyau yn datod y gwely oddi wrth yr is-haen, sy'n golygu yn aml fod y treillio'n gallu gadael yr is-haen sylfaenol (cyn hau) yn gymharol lonydd. Mae'n debyg mai prif effeithiau defnyddio hadgregyn gleision yw'r effeithiau ecolegol anuniongyrchol."

⁵ http://www.seafish.org/upload/file/main/Seed_mussel_review_June04.doc



Cyfleoedd ar gyfer y Dyfodol

Er nad oes lle ar gael ar hyn o bryd i ehangu'r gwelyau cregyn gleision hyn, mae'n bosibl y bydd nifer fach o gyfleoedd yn y tymor canolig i ddatblygu'r diwydiant mewn rhannau eraill o Gymru. Gwelwyd peth gweithgarwch yn barod ym Mae Abertawe, yn y De. Ond gan fod hon yn ardal lle y ceir ynni tonnau uchel o bryd i'w gilydd, mae'r canlyniadau wedi bod braidd yn anghyson. Er ei fod yn bolisi uchel ei risg, gan fod yr elw o ddatblygu gwelyau'n dibynnu ar batrymau'r tywydd a'r cyflenwad o hadgregyn gleision, fe ellid cynyddu cynhyrchiant ar safleoedd ymhellach o'r lan. Mae technoleg yn cael ei datblygu hefyd i hybu ffermio cregyn gleision yn agos i'r lan mewn cewyll, ond ni roddwyd prawf ar hyn yn ymarferol hyd yn hyn.

Mae cynnydd yn y farchnad yn bosibl, gan fod archfarchnadoedd yn newid eu hymagwedd at brynu bwydydd sy'n cael eu tyfu a'u cynhyrchu'n lleol. Nid oes rheswm pam na ddylai'r duedd hon gynnwys morfwydydd o Gymru, gan gynnwys cregyn gleision, wystrys a physgod cregyn eraill. Gellid gweld cynnydd hefyd yn y nifer o Farchnadoedd Ffermwyr sy'n gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae'r syniad o hybu pysgod cregyn iachus ffres o ffynhonnell leol mewn gwestai a thai bwyta o ansawdd uchel yn dod yn fwyfwy deniadol.

Mae'r dyfodol yn ansicr ar hyn o bryd, ac mae aelodau'r bartneriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau eu bod yn goroesi fel busnesau hyfyw gan gadw eu troedle yn y farchnad.

Mae peth ymchwil wedi cael ei gwneud yn yr Unol Daleithiau a Sweden yn ystyried potensial magwrfeydd cregyn gleision i weithredu fel bio-adferwyr, gan fanteisio ar arferion ymborthi'r cregyn gleision i dynnu allan y maetholion gormodol sy'n deillio o ddatblygiadau trefol ar hyd glannau'r môr ac ar gyfer atafaelu carbon.



Astudiaeth Achos: Ffermio Cregyn Gleision yn Afon Menai ac yn ACA¹ Bae Conwy

Cyflwyniad a Chefndir

Mae Afon Menai'n rhedeg rhwng tir mawr Gogledd Cymru ac Ynys Môn. A bellach, ar hyd Afon Menai rhwng trefi glan môr Bangor ar y tir mawr a Biwmaris ar Ynys Môn, ac allan ym Mae Conwy, y saif y fagwrfa gregyn gleision (misglod) fwyaf yn ynys Prydain.

Mae yna dair magwrfa o fewn ffiniau'r Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) hon, y rheolir pob un ohonynt gan y corff rheoli, sef Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. Rheolir un ohonynt fel pysgodfa 'reoledig', a'r ddwy arall fel pysgodfeydd 'unigol'. Mae gan y gwahanol drefniadau rheolaethol cyfreithiol hyn eu goblygiadau gwahanol, gan gynnwys agweddau sy'n berthnasol i gadw rheolaeth gynaliadwy ar y pysgodfeydd.



Ym Mae Conwy mae pysgodfa reoledig yn caniatáu i nifer gyfyngedig o bysgotwyr trwyddedig gribinio cregyn gleision o welyau sydd wedi'u cynnal a'u paratoi'n rhannol. Gweithgarwch traddodiadol yw hwn, y mae ei wreiddiau'n dyddio yn ôl tua 400 o flynyddoedd. Cynhyrchir rhwng 200 a 400 o dunelli o gregyn gleision bob blwyddyn yn yr ardal hon, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu glanhau (pureiddio) yn lleol a'u gwerthu yng ngwledydd Prydain.

Yn ardal pysgodfa Afon Menai Orllewinol, mae dau cwmni bach yn meithrin Wystrys Cribog y Môr Tawel (50 tonnell y flwyddyn) a chregyn gleision (250 tonnell y flwyddyn). (Mae astudiaeth achos ar un o'r rhain, Wystrys a Chregyn Gleision Menai, ar gael hefyd; gweler CD PP4SD neu www.pp4sd.org.uk)



Yn ardal Afon Menai Ddwyreiniol, mae pedwar cwmni sy'n meithrin cregyn gleision yn gweithredu o Ddociau'r Penrhyn (Bangor), sef Myti Mussels Ltd, Deepdock Ltd, Extra Mussels Ltd ac Ogwen Mussels Ltd.

Mae'r cwmnïau hyn yn gweithredu yn unol â gofynion cyfreithiol penodol yr hyn a adnabyddir fel 'Gorchymyn Unigol'. Wrth i'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr lleol ddyfarnu Gorchymyn o'r fath, rhoddir mynediad unigryw i grŵp o bysgotwyr neu unigolion i fedi pysgod cregyn o rywogaethau penodol mewn ardal sydd wedi'i diffinio'n glir. Mae hefyd yn atal dros dro hawl y cyhoedd i gasglu pysgod cregyn o'r rhywogaethau penodol hyn o fewn yr ardal honno. Mae ardal Gorchymyn Afon Menai Ddwyreiniol yn cynhyrchu 7-10,000 o dunelli o gregyn gleision y flwyddyn, sy'n cynrychioli 60-75% o'r holl gregyn gleision sy'n cael eu ffermio yn y DU.

*Uchaf: codi silod i'r bad
Gwaelod: ail-osodir y silod
trwy eu golchi allan drachefn
â dŵr y môr
Ffynhonnell: Prifysgol Abertawe*

Mae nifer o fadau treillio cregyn gleision grymus tra modern yn gweithredu o Ddociau'r Penrhyn, ac mae'r rhain wedi'i gwneud hi'n bosibl i lefelau cynhyrchu yn yr ardal gael eu cadw'n gyson gynaliadwy ers mwy na phum mlynedd ar hugain. Mae'r badau hyn wedi bod o gymorth hefyd i bysgodfa gregyn gleision draddodiadol aber Afon Conwy.

Ers canrifoedd yr oedd y gwaith o ail-osod y silod bach (cregyn gleision ifainc) o ardaloedd rhynglanwol i'r ardaloedd dŵr dwfn ('lays'), lle mae'r cynnydd yn llif y dŵr yn sicrhau digon o faetholion i gyflymu datblygiad y cregyn gleision (byddant yn tyfu'n ddigon mawr i'w gwerthu mewn deuddeg mis), yn cael ei wneud i gyd â llaw. Yr oedd hyn yn golygu cribinio meintiau bach o gregyn gleision (10 canpwys, neu 0.5 tonnell) i mewn i fadau bach â gwaelod gwastad (15 troedfedd, neu 5m o hyd) ac wedyn allan ohonynt. Tasg dra llafurus oedd hon a ystyrir yn rhy aneffeithlon i'r oes sydd ohoni, ac o ganlyniad dechreuodd y diwydiant ddirywio. Erbyn hyn mae'r badau treillio'n ail-osod sawl cant o dunelli o hadau mewn dyddiau, yn lle cymryd misoedd lawer fel o'r blaen, a thrwy hynny'n adnewyddu'r diwydiant yn y Gogledd.

¹ Ardal Cadwraeth Arbennig, a ddynodir dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd CE (Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC)



Arferion

Mae'r broses o ffermio cregyn gleision yn cynnwys:

- Adnabod gwelyau byrhoedlog yr hadgregyn gleision (yn achos y pedwar cwmni hyn, trwy gerdded yr ardaloedd yn ystod trai'r llanwau mawr; arolygu o hofrenyddion ym Mae Morecambe (gogledd orllewin Lloegr), Bae Caerfyrddin a Glannau Sir Benfro yng Nghymru; neu drwy ddefnyddio cyfarpar sonar a chamerau ar fadau)
- Ceisio am hawl mynediad i ardaloedd yr hadgregyn gleision, sy'n gofyn ymgynghoriadau gyda'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Lleol a'r asiantaethau cadwraeth natur a mynediad priodol yng Nghymru a Lloegr (Cyngor Cefn Gwlad Cymru a/neu Natural England, yn ôl lleoliad y gwely hadau)
- Medi'r hadgregyn gleision trwy dreillio
- Gosod yr hadgregyn gleision yn Afon Menai
- Ail-ddosbarthu'r cnwd o ddyfroedd bas i ddyfroedd dyfnach ar gyfer y tyfiant terfynol
- Allforio i'r Iseldiroedd, lle y mae'r cregyn gleision yn cael eu prosesu a'u dosbarthu.

Yn wahanol i fathau eraill o fedi cregyn gleision megis sugn-dreillio cocos, ystyrir treillio cregyn gleision yn ddull mwynach, llai ymyriadol o'u cynaeafu gan y cwmnïau hyn. Mae cregyn gleision yn hidl-ymborthwyr; hynny yw, maent yn cael maethiad trwy hidlo defnydd gronynnol naturiol o'r dŵr. Bydd y cregyn gleision wedyn yn carthu'r defnydd gwastraff heb ei dreulio neu ddefnydd ysgarthol wedi'i dreulio allan o geudod eu cyrff. Mae'r defnydd ysgarthol hwn yn ymgasglu'n gyflym gan droi'n haen drwchus o laid (a adnabyddir fel 'mwd cregyn gleision'). I fedi'r anifeiliaid, mae'r treilliwr cregyn gleision yn ymlusgo trwy'r llaid hwn heb ymyrryd â gwely gwreiddiol y môr. Mae'r rhan fwyaf o'r cynhaeaf (sy'n gallu cynrychioli cymaint â 75% o grnwd gwledydd Prydain) yn cael ei hanfon i'r Iseldiroedd wedyn i gael ei phuro.

Mae pureiddio'n broses ar gyfer glanhau'r cregyn gleision trwy eu gosod mewn dŵr sydd wedi cael ei sterileiddio â phelydrau uwchfioled (UV). Mae hyn yn ofynnol yn y DU dan y Gyfarwydddeb Glanweithdra Pysgod Cregyn sy'n amddiffyn bwytywyr pysgod cregyn trwy osod amodau iechyd yng nghyswllt cynhyrchu a marchnata molysgiaid dwygragenog byw fel lluniaeth ddynol. Mae'r Gyfarwydddeb yn amodi na ellir cynaeafu pysgod cregyn ond o ardaloedd sydd wedi cael eu monitro a'u diffinio yn unol â system a weinyddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. (DEFRA 2004)² Mae ardaloedd cynhyrchu dwygragenion (gan gynnwys cregyn gleision ac wystrys) yn cael eu diffinio yn ôl y lefel o driniaeth sydd ei hangen arnynt cyn iddynt gael eu gwerthu. Mae awdurdodau lleol yn casglu'r wybodaeth hon ac yn ei hanfon at yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n rhoi darlun cenedlaethol at ei gilydd. Gosodir safonau mewn perthynas â chrynoadau bacteria'r colon a Salmonella. Diffinir safleoedd medi o raddau A i C; nid oes angen rhagdriniaeth ar safleoedd gradd A tra bod angen pureiddio dwys ar safleoedd gradd C. (Asiantaeth yr Amgylchedd 2008)³

Gan fod yr holl safleoedd yng Ngogledd Cymru wedi'u diffinio'n radd B, mae angen pureiddio'r cregyn gleision a'r wystrys a gynhyrchir yno cyn iddynt gael eu bwyta gan bobl, os bwriedir eu bwyta'n 'ffres' o'r gragen. Unwaith y mae'r broses bureiddio hon wedi'i chwblhau, mae'r rhan fwyaf o'r cregyn gleision yn cael eu hallforio i farchnadoedd yn Ffrainc, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg, ond mae rhai'n cael eu hanfon yn ôl i wledydd Prydain lle y mae manwerthwyr lleol, gwestai a thai bwyta'n derbyn cyflenwad o gregyn gleision glân byw o'r safon orau.

² http://www.defra.gov.uk/environment/water/industry/review/pdf/min_guidance.pdf

³ http://www.environment-agency.gov.uk/yourenv/eff/1190084/water/213925/578455/578553/578733/?version=1&lang=_e



Heriau a Phwysau o Blaid Newid

- Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi i gais gan gwmni cychod lleol yn nhref Bwmaris i ddatblygu marina ar gyfer 450 o gychod; wrth i hyn gael ei ysgrifennu (Mawrth 2008) mae'r cynigion dan arolwg
- Canfyddiad negyddol gan y cyhoedd, er enghraifft ynghylch treillio a milltiroedd bwyd
- Gwendid y farchnad yn y DU oherwydd diffyg diddordeb mewn cregyn gleision fel rhan o'r deiet
- Cregyn gleision yn cael eu colli i ysglyfaethwyr naturiol
- Diffyg ac anhygyrchedd grantiau i ddatblygu'r busnes ymhellach
- Unwaith y mae stoc o hadau wedi cael ei ddarganfod, fe fydd oedi sylweddol - o leiaf 28 diwrnod ar gyfartaledd - cyn derbyn caniatâd i'w gynaeafu, o ganlyniad i'r broses fficrocrataidd faith. Mae'r fath oedi'n gallu golygu bod y stoc yn cael ei golli oherwydd ysglyfaethwyr, tywydd anffafriol neu ffactorau eraill
- Oherwydd nad oes diwydiant gweithgynhyrchu cychod lleol, a globaleiddio ym maes gweithgynhyrchu, mae'r cychod yn cael eu gwneud dramor, yng Ngwlad Pwyl a Tsieina, tra bod y cydrannau electronig a'r moduron yn cael eu gwneud yn yr Iseldiroedd.

Rhai Ystyriaethau yng Nghyswllt Cynladwyedd

Yr allwedd i lwyddiant magwyr cregyn gleision Afon Menai yw eu hymroddiad i'r diwydiant, ymagwedd gydweithredol y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant yng Ngogledd Cymru, a dull gweithredu goleuedig a hyddysg Pwyllgor Pysgodfeydd y Môr a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r cwmnïau wedi buddsoddi cryn dipyn o arian rhyngddynt ar wella'r fflyd a datblygu'r busnes. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd integreiddio arferion cynladwy yn yr ystyr ehangaf yn eu busnes o ddydd i ddydd. Serch hynny, erys rhai o'r problemau ynghylch cynladwyedd y tu draw i'w gallu i'w datrys ar hyn o bryd.

Mae absenoldeb diwydiant gweithgynhyrchu cychod lleol a'r angen o'r herwydd i fynd dramor i brynu cychod, cydrannau electronig a moduron yn cael ei ystyried gan gyfarwyddwyr y cwmnïau yn gyfle colledig i ecónomi Cymru.

Mae'r cynhaeaf cregyn gleision yn cael ei bureiddio yn yr Iseldiroedd, gan ychwanegu'n fawr at filltiroedd bwyd y cynnyrch terfynol. Mae hyn yn angenrheidiol ar hyn o bryd, gan nad oes cyfleusterau pureiddio addas ar gael yng Nghymru. Nid yw'r cwmnïau magu cregyn gleision eu hunain yn gallu fforddio'r buddsoddiad cyfalaf mawr na chostau seilwaith adeiladu'r fath gyfleusterau, a deëllir nad ydynt ar yr agenda chwaith gan Lywodraethau Cymru na San Steffan ar hyn o bryd.

Yn ogystal mae'r ansicrwydd a achosir gan y problemau ynghylch y datblygiad arfaethedig a ddisgrifir isod yn gwneud unrhyw fuddsoddiadau yn y tymor canolig a hir yn amheus dros ben. Credir bod y marina y bwriedir ei ddatblygu yn Afon Menai yn golygu bygythiad sylweddol i'r magwyr cregyn gleision. Mae'r effeithiau negyddol dichonol yn cynnwys:

- Y posibilrwydd o ddiddymu'r Gorchymyn Unigol, fyddai'n galluogi'r cyhoedd i feddi'r cregyn gleision trawsblanedig yn anrheoledig
- Perygl bacteria a mathau eraill o lygredd yn y dŵr oherwydd y cynnydd yn y nifer o gychod
- Cychod yn cael eu clymu uwchben y gwelyau cregyn gleision, gan rwystro mynediad iddynt
- Byddai'r marina arfaethedig yn rhannu'r gwelyau cregyn gleision presennol yn ddwy, gan gyfyngu'n arw ar y gallu i'w defnyddio.



Mae'n fater emosiynol iawn. Wrth i hyn gael ei ysgrifennu, erys canlyniad achos cyfreithiol yn sgil adolygiad barnwrol, a'i effaith ar y diwydiant, i'w weld.

Esiampl dda o'r ymagwedd gydweithredol yn y diwydiant hwn yn y Gogledd yw'r ffaith bod silod cregyn gleision yn cael eu hail-osod bob blwyddyn er lles pysgotwyr Conwy gan y grŵp yn Nociau'r Penrhyn. Yn ôl y maint sydd i gael ei symud, mae 300-400 o dunelli o gregyn gleision yn cael eu hadleoli gan gygod y Penrhyn, o'r parth rhynglanwol uchel i lawr i ardal ddyfnach lle y mae'r cregyn gleision yn gallu tyfu'n fwy effeithiol a chael eu casglu'n rhwyddach hefyd gan bysgotwyr Conwy.

Mae'r angen i gadw prif ysglyfaethwr y cregyn gleision, sef y cranc glas, dan reolaeth wedi arwain at ddatblygu menter fusnes fach arall ar Afon Menai. Gyda chefnogaeth y magwyr cregyn gleision, mae crancod gleision yn cael eu cynaeafu, eu rhewi'n chwim a'u hallforio i Ffrainc i wneud cawl.

Mae'r cwmnïau cregyn gleision yn yr ardal i gyd ar eu hennill oherwydd presenoldeb Ysgol Gwyddorau'r Eigion gerllaw ym Mhrifysgol Bangor. Maent wedi creu cysylltiadau ymchwil cryfion ag YGE, yn ogystal â phrifysgolion eraill yng Nghymru. Mae'r cwmnïau'n cyfrannu pryd bynnag y gallant at waith ymchwil, sy'n dod â buddion i'r diwydiant yn gyffredinol.

Yn 2007 rhoddwyd Kim Mould o Myti Mussels a James Wilson o Deepdock ar y rhestr fer ar gyfer gwobr o fri am arloesedd (gweler adroddiad y wasg, isod). Dywedodd Kim, "*Mi ddyfeision ni gynllun i greu system dreillio awtomatig wedi'i gosod ar ben-ôl bad trydanol, prin ei ddyfnder, hawdd ei drin. Yn dilyn hyn fe addaswyd y cysyniad gan Maaskant (eu hadeiladwyr cychod yn yr Iseldiroedd) ar gyfer cwch wystrys yn yr Iseldiroedd, a enillodd wobwr am Gwch Isalmaenaidd y Flwyddyn yn 2006.*"

Da iawn, Gymru!⁴

Llongyfarchiadau i Deepdock a Myti Mussels yng Nghymru ar eu cyraeddiadau. Mae'r ddau gwmni ar y rhestr fer i ennill Gwobr Addas i'r Dyfodol *Aquaculture Today*. Mae James Wilson o gwmni Deepdock yng Nghymru, a enwebwyd ar gyfer y wobwr ym maes pysgod cregyn, "yn falch o fod yn gysylltiedig â'r defnydd cyfrifol a chynaliadwy o'r amgylchedd morawl", sydd, yn ei farn ef, "yn elfen hanfodol os ydym am sicrhau moramaeth ddwygragenion lwyddiannus."

Yr oedd Kim Mould o Myti Mussels, a enwebwyd ar gyfer y wobwr am arloesedd, yn llawen hefyd i fod ar y rhestr fer: "Dechreuodd Myti Mussels fasnachu ym 1982, felly rydym yn dathlu 25 mlynedd yn y busnes eleni. Cwmni masnachu oeddem ar y dechrau, ond mi ddaeth yn amlwg cyn hir y byddai'n rhaid inni fagu ein cynnyrch ein hunain i'w ychwanegu at y cregyn gleision gwyllt a oedd ar gael. Yn ôl yn y 1980au yr unig fadaw a oedd ar gael ar gyfer magu cregyn gleision ar raddfa fawr oedd treillwyr ail law o'r Isalmaen nad oeddent yn bodloni rheolau'r DU ynghylch diogelwch badau pysgota."

Dros y blynyddoedd felly mae Myti Mussels wedi comisiynu eu badau casglu cregyn gleision pwrpasol eu hunain. Gyda phob bad newydd, mae Myti Mussels wedi cynyddu'r capasiti cludo, gweddnewid eu gweithrediadau ffermio, a chyda thraul amser maent wedi graddol gynyddu maint ac ansawdd y cynnyrch. Yn 2003, derbyniasant eu bad 43 metr tra modern, *Valente*. Adeiladwyd *Valente* yn yr Isalmaen ar gyfer mordeithiau ar y cefnfor yn cludo 250 o dunelli o hadau, a chanddo'r nodweddion diweddaraf megis systemau balast awtomatig a blaen cytar gwreiddiol i wella'r cyflymder, cynhaliaeth ar y môr a darbodaeth. Yr oedd gan y bad system olchi ddatodadwy hefyd ar gyfer gwaith cynaeafu.

⁴ http://www.aquaculturetoday.co.uk/news/fullstory.php/aid/161/Well_done_Wales!.html